Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau
## Datgan Buddiannau

Ionawr 2026

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau

## Datgan Buddiannau

Ionawr 2026

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Drakeford AS**
Llafur Cymru



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion a Casgliadau** .......... **6**

**1. Cyflwyniad a Gwybodaeth Gefndir** .......... **7**

**2. Datgan buddiannau cofrestradwy a gwahardd pleidleisio** .......... **8**

**3. Datgan buddiannau perthnasol** .......... **11**

Ffurf y datganiadau .......... 11

Pan fydd angen datganiad .......... 12

Datgan buddiannau perthnasol cyn pleidleisio .......... 15

Datgan buddiannau perthnasol wrth gyflwyno busnes .......... 17

**4. Datgan buddiannau y tu allan i drafodion y Senedd** .......... **19**

Yr arfer mewn mannau eraill .......... 19


**Atodiad 1 : Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **21**

# Rhagair y Cadeirydd

Dyma'r ail adroddiad – a'r adroddiad terfynol – ar ymchwiliad y Pwyllgor i gofrestru a datgan buddiannau. Fel sydd wedi'i nodi'n flaenorol, mae cofrestru a datgan buddiannau yn egwyddor bwysig mewn Senedd. Mae'n rhoi tryloywder ynghylch buddiannau ariannol a buddiannau eraill sydd gan Aelodau etholedig y gellid ystyried eu bod yn dylanwadu arnyn nhw a'u hymddygiad yn y Senedd.

Nod ein hadroddiad ar newidiadau i'r rheolau ynghylch cofrestru oedd symleiddio'r rheolau a chynyddu tryloywder mewn perthynas â'r gofrestr. Dyma egwyddorion craidd yr adroddiad hwn hefyd. Rydym yn argymell symleiddio'r gofynion o ran datgan buddiannau o dan Reol Sefydlog 2 i ddileu'r gwaharddiad ar bleidleisio os yw Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2.6 a Rheol Sefydlog 2.7. Nid yw'n newid y gofyniad i ddatgan buddiannau, ond mae'n dileu rheol nad yw erioed wedi cael ei sbarduno, ac sy'n anghydnaws ag arferion Seneddau eraill. Yn bwysicach fyth, rydym yn cynyddu'r gofynion ar Aelodau o ran datgan buddiannau perthnasol, a hynny drwy argymell bod gofyn i Aelodau ddatgan buddiannau wrth gyflwyno busnes y Senedd, a bod gofyn cynnwys rhagor o wybodaeth wrth ddatgan buddiant.

Yn olaf, rydym yn cynnig bod datganiadau'n cael eu gwneud gan Aelodau o'r Senedd pan fyddant yn cyflawni dyletswyddau nad ydynt yn ddyletswyddau a gyflawnir yn y Senedd, megis gohebu â Gweinidogion neu swyddogion cyhoeddus eraill. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylid cynnwys y gofyniad hwn yn y Cod Ymddygiad, a byddwn yn ystyried y mater ymhellach fel rhan o'r gwaith o adolygu'r Cod. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn ac sydd wedi helpu i lunio'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn hyrwyddo mwy o dryloywder a chysondeb, yn barod ar gyfer y Seithfed Senedd.



**Hannah Blythyn AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Argymhellion a Casgliadau

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 2 i ddileu'r gwaharddiad ar bleidleisio yn Rheol Sefydlog 2.9 pan fo Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7. ........ Tudalen 10

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid ei gwneud yn ofyniad yn y Rheolau Sefydlog i ddatgan y buddiannau perthnasol ar adeg cyflwyno busnes........ Tudalen 18

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn ymchwilio i ymarferoldeb sicrhau bod gwybodaeth am natur y buddiant ar gael drwy'r Cofnod, yn hytrach na defnyddio'r symbol [R] presennol yn unig, er mwyn gwella tryloywder. ........ Tudalen 18

**Casgliad 1.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn bwriadu adolygu'r Canllawiau cyn y Seithfed Senedd, a bydd yn ystyried a ellir eu cryfhau o ran egluro pa fath o wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn datganiadau........ Tudalen 20

**Casgliad 2.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai Canllawiau'r Senedd ar ddatgan buddiannau yn elwa o gynnwys cyngor tebyg i gyngor Tŷ'r Cyffredin ynghylch pryd nad oes angen datgan buddiant perthnasol, ac mae'n bwriadu cynnig bod testun penodol yn cael ei gynnwys yn y canllawiau pan gânt eu hadolygu cyn y Seithfed Senedd........ Tudalen 20

**Casgliad 3.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn bwriadu cynnig bod y Canllawiau'n cael eu diwygio i integreiddio cyngor y Comisiynydd Safonau o 2015 ar ddatgan buddiannau perthnasol cyn pleidleisio, fel rhan o'r adolygiad o'r canllawiau cyn y Seithfed Senedd. ........ Tudalen 20

**Casgliad 4.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n fwyaf priodol cynnwys y gofyniad i ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol neu gofrestradwy y tu allan i drafodion y Senedd yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, fel sy'n wir mewn mannau eraill, a chytunodd i drafod y mater mewn rhagor o fanylder fel rhan o'i adolygiad o'r Cod hwnnw........ Tudalen 20

# 1. Cyflwyniad a Gwybodaeth Gefndir

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") wedi cynnal adolygiad o'r broses o gofrestru a datgan buddiannau'r Aelodau gyda'r nod o sicrhau bod y rheolau a'r arferion yn addas at y diben ar gyfer y Seithfed Senedd. Ystyriodd y Pwyllgor ei bod yn amserol ymgymryd â gwaith yn y maes hwn gan mai yn 2014 y cynhaliwyd yr adolygiad sylweddol diwethaf yn y maes hwn.

**2.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cychwynnol ar gofrestru a datgan buddiannau o 6 Mawrth i 24 Ebrill 2023. Ar ôl ystyried yr ymatebion, cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd â gwaith ar wahân ar gofrestru a datgan buddiannau. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â datgan buddiannau – cyhoeddwyd yr adroddiad ar gofrestru buddiannau ym mis Gorffennaf 2025[1].

**3.** Er mwyn llywio ymhellach ei adolygiad o reolau'r Senedd ynghylch datgan buddiannau, ystyriodd y Pwyllgor sut mae seneddau eraill yn y DU ac Iwerddon yn rheoli'r broses o ddatgan buddiannau a chymharu eu harferion ag arferion y Senedd. Defnyddiodd y Pwyllgor yr wybodaeth hon, ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, i lunio cynigion drafft ar gyfer newid. Llywiodd y cynigion hyn ail ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda'r Aelodau, y Comisiynydd Safonau, a'r Llywydd. Rhannodd y Pwyllgor y cynigion drafft hyn hefyd gyda Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd.

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn gwneud nifer o argymhellion sy'n cynnig ystod o newidiadau i'r arferion presennol yn y Senedd. Mae'r Pwyllgor yn cynnig bod yr holl newidiadau yn cael eu dwyn i rym ar gyfer dechrau'r Seithfed Senedd ym mis Mai 2026.

[1] Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau: Cofrestru Buddiannau

# 2. Datgan buddiannau cofrestradwy a gwahardd pleidleisio

**5.** Mae Rheol Sefydlog 2: Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

> *2.6 Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny.*
>
> *2.7 Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol.*
>
> *2.9 Os yw'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 2.6 i Aelod ddatgan buddiant mewn mater cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i'r Aelod hwnnw beidio â phleidleisio ar unrhyw gynnig sy'n ymwneud â'r mater hwnnw yn y trafodion hynny. Nid yw Rheol Sefydlog 2.9 yn gymwys mewn perthynas ag arfer pleidlais fwrw o dan Reol Sefydlog 6.20.*[2]

**6.** Effaith gyffredinol y darpariaethau hyn yw pan fo gan Aelod, ei bartner, neu ei blentyn dibynnol fuddiant ariannol cofrestradwy mewn mater sy'n codi mewn , a bod y Senedd yn gwneud penderfyniad a allai arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod sy'n fwy na'r hyn a allai gronni i'r etholwyr yn gyffredinol, fod rhaid iddynt wneud datganiad llafar, ac – ar ôl gwneud y datganiad hwnnw – na chânt gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais sy'n ymwneud â'r mater hwnnw.

[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

**7.** Mae'r gofynion hyn yn seiliedig ar adran 36 o Ddeddf 2006. Mae adran 36 yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Senedd gynnwys darpariaeth ynghylch datgan buddiannau ariannol. Mae hefyd yn rhoi'r opsiwn i'r Rheolau Sefydlog ddarparu ar gyfer atal neu gyfyngu ar gyfranogiad mewn unrhyw drafodion Aelod sydd wedi datgan buddiant o'r fath. Gan fod y Rheolau Sefydlog yn nodi ar hyn o bryd na chaiff Aelod bleidleisio ar gynnig y mae rhaid iddo wneud datganiad llafar mewn perthynas ag ef o dan Reol Sefydlog 2.6, byddai pleidleisio o dan yr amgylchiadau hynny yn drosedd o dan adran 36(7) o'r Ddeddf ar hyn o bryd.

**8.** Ehangwyd y gofyniad yn dilyn adolygiad yn 2014, o fantais ariannol uniongyrchol "a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran personau y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol" i un "a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol". Er gwaethaf hyn, mae natur y gofyniad ynghylch gwahardd pleidleisio yn golygu mai dim ond o dan amgylchiadau penodol iawn y byddai'n cael ei sbarduno, ac nid oes unrhyw achosion amdano'n cael ei sbarduno yn y Senedd/Cynulliad.

**9.** Nododd y Pwyllgor nad oes gan unrhyw ddeddfwrfa arall yn y DU nac Iwerddon reol o'r fath, er bod gofynion tebyg yn bodoli yn Ynys Manaw a Jersey, ac mae gofyniad i dynnu'n ôl o ystyriaeth a/neu bleidleisio mewn perthynas â mater lle mae gan Aelod fuddiant personol wedi'i gynnwys yn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol i Aelodau Cynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Cymuned, Awdurdodau Tân ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.[3]

**10.** Nododd y Pwyllgor hefyd nad yw'r Senedd na deddfwrfeydd eraill, yn wahanol i awdurdodau lleol a llywodraethau ar bob lefel, yn gyffredinol yn gwneud penderfyniadau a fyddai'n rhoi mantais ariannol uniongyrchol i unigolion, a'i bod yn ymddangos bod y rheol wedi deillio o strwythur corff corfforedig y Cynulliad ar y pryd rhwng 1999 a 2006, cyn gwahanu'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol.

**11.** Nododd y Pwyllgor ymhellach fod adroddiad diweddar gan y Comisiynydd Safonau yn awgrymu bod rhai Aelodau'n drysu rhwng y rheol hon a'r gofyniad llawer ehangach i ddatgan buddiannau perthnasol, er enghraifft drwy ystyried mai dim ond pan fo penderfyniad yn cael ei wneud y mae angen datganiad.[4]

**12.** Am y rhesymau hyn, cynigiodd y Pwyllgor yn ei ail ymgynghoriad na ddylid cadw'r rheol ynghylch gwahardd pleidleisio yn Rheol Sefydlog 2. Yn ei ymateb i'r

---

[3] Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001
[4] Y Pedwerydd adroddiad ar bymtheg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

ymgynghoriad hwnnw, cytunodd y Comisiynydd y dylid dileu'r rheol yn Rheol Sefydlog 2 ynghylch gwahardd pleidleisio ac y dylai'r Aelodau allu cymryd rhan lawn mewn unrhyw bleidlais, ar yr amod bod unrhyw fuddiant yn y pwnc wedi'i ddatgan ac felly yn y parth cyhoeddus. Cytunodd grŵp Plaid Cymru hefyd â'r cynnig i ddileu'r rheol yn Rheol Sefydlog 2 ynghylch gwahardd pleidleisio.

**13.** Mae'r Pwyllgor yn ystyried y bydd dileu'r gofyniad hwn yn ychwanegu eglurder at y gofynion datgan i'r rhai sy'n cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd ac yn eu dilyn.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 2 i ddileu'r gwaharddiad ar bleidleisio yn Rheol Sefydlog 2.9 pan fo Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7.

# 3. Datgan buddiannau perthnasol

**14.** Y prif newid a ddeilliodd o adolygiad 2014 oedd cyflwyno gofyniad yn y Rheolau Sefydlog i'r Aelodau wneud datganiad ar lafar o unrhyw fuddiannau perthnasol sydd gan yr Aelod neu aelod o'i deulu neu y mae'n disgwyl eu cael mewn unrhyw fater sy'n codi yn nhrafodion y Senedd. Ystyriwyd y byddai cyflwyno angen ehangach am ddatganiad ochr yn ochr â gofynion cul iawn Rheol Sefydlog 2 yn ychwanegu eglurder ac y byddai er budd y cyhoedd o ran tryloywder.

**15.** Mae'r gofyniad i ddatgan buddiannau perthnasol wedi'i nodi yn Rheolau Sefydlog 13.8A (Cyfarfod Llawn) a 17.24A (pwyllgorau), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau '*ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.*'

**16.** Yn wahanol i ofyniad Rheol Sefydlog 2.6, nid yw methu â datgan buddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13.8A a 17.24A yn drosedd o dan Ddeddf 2006, ond gall fod yn destun cwyn i'r Comisiynydd Safonau.

## Ffurf y datganiadau

**17.** Roedd ymatebion i ymgynghoriad cychwynnol y Pwyllgor yn awgrymu y gellid cryfhau'r Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill[5] ("y Canllawiau") drwy:

- ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau bennu union natur y buddiant y maent yn ei ddatgan;
- darparu geiriad ffurflen ar gyfer yr Aelodau.

**18.** Awgrymwyd y byddai hyn yn sicrhau bod yr Aelodau bob amser yn darparu digon o wybodaeth pan fyddant yn datgan buddiant a bod datganiadau'n ystyrlon, ac y nodir natur y buddiant yn glir yn hytrach na chyfeirio ato yn unig. Awgrymwyd hefyd y dylid darparu hyfforddiant i'r Aelodau ynghylch y gofynion o ran datgan buddiannau perthnasol.

**19.** Nododd y Pwyllgor fod paragraff 23 o'r Canllawiau i'r rheolau presennol eisoes yn pennu ei bod yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu datganiadau â digon o

[5] Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill

wybodaeth sy'n manylu ar natur y buddiant sy'n cael ei ddatgan. Mae enghreifftiau o eiriad hefyd wedi'u cynnwys yn y canllawiau.

**20.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu'r Canllawiau cyn y Seithfed Senedd, a bydd yn ystyried a ellir eu cryfhau i wneud yn gliriach pa fath o wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn datganiadau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol bod swyddogion Comisiwn y Senedd yn paratoi hyfforddiant ar gyfer Aelodau newydd ac Aelodau sy'n dychwelyd ar ôl etholiad Mai 2026 a fydd yn cynnwys cofrestru a datgan buddiannau fel blaenoriaeth.

## Pan fydd angen datganiad

**21.** Roedd unfed adroddiad ar hugain y Pwyllgor i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.91[6], a gyhoeddwyd ar 2 Gorffennaf 2025, yn ymwneud ag adroddiad gan y Comisiynydd Safonau ynghylch methiant i ddatgan buddiant perthnasol yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn. Arweiniodd yr adroddiad at gwestiynau ynghylch pryd y mae angen datganiad, a chytunodd y Pwyllgor i edrych ar ehangu'r canllawiau ar gyfer datgan buddiannau perthnasol i roi mwy o gyngor i'r Aelodau ynghylch y math o ffactorau a allai olygu bod angen datganiad.

**22.** Yn yr unfed adroddiad ar hugain, nodwyd bod Aelod, yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weinidog, wedi sôn am yr Undeb Unite yn ei hymateb i gwestiwn ar ddatganiad ar Tata Steel pan oedd hi'n aelod o'r Undeb ac wedi cael nawdd ariannol ganddi o'r blaen. Ni ddatganodd yr Aelod fuddiant perthnasol o dan Reol Sefydlog 13.8A cyn gwneud y cyfraniad hwn.

**23.** Roedd yr Aelod, yn ei hamateb i'r Comisiynydd, wedi tynnu sylw at nifer o resymau dros ddod i'r casgliad na ellid yn rhesymol ystyried bod y buddiant wedi dylanwadu ar y cyfraniad, gan gynnwys:

- gweithredu yn rhinwedd ei swydd ar y pryd fel y Prif Weinidog;
- cyfeirio at undebau llafur eraill yn ogystal ag Unite; a
- gwnaed y cyfeiriadau at Unite mewn dadl ar bwnc gwahanol.

**24.** Er bod y Pwyllgor yn cytuno â chasgliad y Comisiynydd ei bod yn amlwg bod gan yr Aelod fuddiant perthnasol, roedd gan y Pwyllgor hefyd rywfaint o gydymdeimlad â'r farn y gellid ystyried y rhain yn rhesymau dilys i'r Aelod ddod i'r casgliad nad oedd y buddiant wedi dylanwadu ar ei chyfraniad.

[6] Yr Unfed Adroddiad ar Hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

**25.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan y Comisiynydd ynghylch sut y daeth i'r casgliad y gellid ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwn wedi dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod. Safbwynt y Comisiynydd oedd bod defnyddio'r term 'gellid… dylanwadu' yn gofyn am ddehongliad gwahanol i 'wedi dylanwadu', o ystyried nad yw 'gellid' yn gofyn am dystiolaeth ei fod wedi digwydd mewn gwirionedd.

**26.** Mae'r Pwyllgor o'r farn mai effaith ail elfen y prawf yn Rheol Sefydlog 13.8A (…*ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod*) y gall fod amgylchiadau lle, er bod gan Aelod neu aelod o'i deulu fuddiant, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl cael buddiant sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, nad oes angen ei ddatgan, oherwydd na allai eraill ei ystyried yn rhesymol y byddai'n dylanwadu ar ei gyfraniad. Pe na bai hynny'n wir, byddai'r rhan honno o'r prawf yn ddiangen i bob pwrpas.

**27.** Nododd y Pwyllgor fod Tŷ'r Cyffredin yn nodi canllawiau ynghylch pryd nad oes angen datgan buddiant, sy'n rhoi rhywfaint o eglurder i ASau yn y maes hwn:

> *6. The test of relevance is whether those interests might reasonably be thought by others to influence his or her actions or words as a Member.*
>
> *7. Members are not required to declare an interest:*
>
> *a. if to do so would unduly impede the business of the House; for example, during oral Questions, when asking supplementary Questions, or when responding to a Ministerial statement; or*
>
> *b. when voting, either in the House or in committee. But a Member who has a relevant registerable interest which has not yet been registered should seek to register it before the vote; or if this is not possible, as soon as possible afterwards; or*
>
> *c. if that interest is a benefit is available to all Members, such as the parliamentary salary, or expenses met from parliamentary sources or from a scheme for parliamentary expenses; or*
>
> *d. if it is a benefit provided by the Member's own party (unless it is registerable under Category 2: Donations and other support for activities as a Member of Parliament)[7]."*

[7] Tŷ'r Cyffredin: Y Canllaw i'r Rheolau sy'n ymwneud ag Ymddygiad yr Aelodau [Saesneg yn unig]

**28.** Yn yr un modd, mae Cod Ymddygiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cynnwys y canlynol:

> *"7. You are not required to declare an interest:*
>
> *a. when voting in plenary. But if you have a relevant registrable interest which has not yet been registered you should seek to register it before the vote; or if this is not possible, as soon as possible afterwards;*
>
> *b. if the interest is common to all Members, (e.g. an interest such as a Member's salary or being an employer);*
>
> *c. if the interest is common to a very broad category of people to which you belong (e.g. ratepayers; parents; public transport users etc. This exemption does not extend to membership of a profession)."*[8]

**29.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai Canllawiau'r Senedd yn elwa o gynnwys cyngor tebyg i'r Aelodau, ac ar ôl ymgynghori â'r Comisiynydd Safonau, y Llywydd a grwpiau pleidiau, mae'n bwriadu cynnig bod y testun a ganlyn yn cael ei gynnwys yn y canllawiau pan gânt eu hadolygu cyn y Seithfed Senedd.

Mae'r prawf perthnasedd yn cynnwys dwy ran:

1. A yw'r buddiant yn berthnasol i'r trafodion; a
2. A allai eraill yn rhesymol feddwl bod y buddiannau hynny'n dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod, h.y. a fyddai'n rhesymol i eraill feddwl y byddai geiriau neu weithredoedd yr Aelod wedi bod yn wahanol oni bai am fodolaeth y buddiant.

Yn y pen draw, mater i'r Aelodau yw penderfynu a yw'r profion hyn yn cael eu bodloni ai peidio o dan bob amgylchiad penodol. Ym mhob achos, mae'n hanfodol bod yr Aelodau'n ystyried y rhyngweithio rhwng y buddiant a'r cyfraniad o bersbectif eraill, yn hytrach nag a yw'r Aelodau eu hunain o'r farn bod y buddiant wedi dylanwadu ar eu cyfraniad.

[8] Yr Unfed Adroddiad ar Hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mae'r ffactorau a all ddylanwadu ar ba un a yw'n rhesymol i eraill feddwl bod y buddiant wedi dylanwadu ar y cyfraniad yn cynnwys:

- natur y buddiant a pha mor gyffredin ydyw. Er enghraifft, nid oes angen datgan os yw'r buddiant yn gyffredin i bob Aelod, (e.e. buddiant fel cyflog Aelod neu fod yn gyflogwr) neu os yw'r buddiant yn gyffredin i gategori eang iawn o bobl y mae'r Aelod yn perthyn iddo (e.e. trethdalwyr, rhieni, defnyddwyr y GIG);
- y swyddogaeth y mae'r Aelod yn cymryd rhan ynddi ar y pryd (e.e. fel Aelod unigol, Gweinidog, Cadeirydd Pwyllgor, Comisiynydd neu ddeiliad swydd arall);
- y cyd-destun y mae eu cyfraniad yn cael ei wneud ynddo, e.e. a yw'r Aelod yn codi'n rhagweithiol y mater y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef;
- natur y cyfraniad a'r ffactorau ac eithrio'r buddiant a fydd wedi dylanwadu arno, gan gynnwys a allai eraill ystyried bod y cyfraniad yn hyrwyddo buddiant perthnasol yr Aelod ar draul neu er anfantais i eraill.

**30.** Mae'r Pwyllgor yn dymuno ailadrodd, fodd bynnag, mai cyfrifoldeb Aelod yn y pen draw yw penderfynu a oes angen datgan buddiant perthnasol o dan unrhyw amgylchiadau penodol, ac y dylai'r Aelodau ymgynghori â'r Canllawiau a gofyn am gyngor y Cofrestrydd ymlaen llaw os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch a all fod angen datganiad.

## Datgan buddiannau perthnasol cyn pleidleisio

**31.** Nid yw Rheolau Sefydlog y Senedd yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch datgan buddiannau perthnasol cyn pleidleisio, ac nid yw'r Canllawiau'n mynd i'r afael â'r mater ychwaith. Fodd bynnag, yn 2015, rhoddodd Cofrestrydd Buddiannau'r Aelodau, mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Safonau ar y pryd, y cyngor a ganlyn i'r Aelodau ynghylch datgan buddiannau cyn pleidleisio:

> *"O ystyried y ffactorau sydd fel arfer yn penderfynu sut mae Aelodau yn pleidleisio, mae'r amgylchiadau lle gellid meddwl yn rhesymol bod y penderfyniad i bleidleisio mewn ffordd benodol wedi cael ei ddylanwadu gan fuddiant perthnasol yn debygol o fod yn brin, ac yn sicr yn llai cyffredin nag ar gyfer cyfraniadau llafar. Fodd bynnag, os oes gan Aelod fuddiant perthnasol, bydd angen iddo ei ddatgan cyn pleidleisio, oni bai am yn yr achosion a ganlyn:*

- *mae'r buddiant wedi'i ddatgan eisoes fel rhan o gyfraniad llafar yr Aelod at y ddadl; a/neu*
- *mae'r buddiant wedi'i gofrestru gan yr Aelod yn y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau (ac yn yr achos hwnnw byddai eisoes ar gael i'r cyhoedd). Dylid nodi, fodd bynnag, fod peidio â datgan buddiant perthnasol ar y sail ei fod eisoes wedi'i gofrestru dim ond yn berthnasol mewn perthynas â phleidleisio (er mwyn peidio ag effeithio'n anghymesur ar drafodion) ac nid mewn perthynas â siarad."*

**32.** Nododd y Pwyllgor fod y cyngor i'r Aelodau wedi aros yn gyson ers hynny, ond er ei fod yn cael ei ail-ddosbarthu i'r Aelodau o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen, nid yw erioed wedi cael ei integreiddio'n ffurfiol i'r Canllawiau.

**33.** Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid integreiddio'r cyngor ar ddatgan buddiannau perthnasol i'r Canllawiau ac ymgynghorodd â'r Comisiynydd i sicrhau bod y cyngor yn parhau i fod yn briodol. Yn ei ymateb, cynigiodd y Comisiynydd y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn glir ei bod yn ofynnol i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol cyn pleidleisio, oni bai bod y buddiannau eisoes yn y parth cyhoeddus o ganlyniad i fod yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau neu eu bod wedi'u datgan yn ystod cyfraniad yr Aelod at y trafodion.

**34.** Byddai hyn yn dod â'r Senedd yn unol â seneddau eraill yn y DU ac Iwerddon. Yn Nhŷ'r Cyffredin, er nad yw'n ofynnol i'r Aelodau ddatgan buddiant wrth bleidleisio naill ai yn y Tŷ nac mewn pwyllgor, dylai Aelod sydd â buddiant cofrestradwy perthnasol nad yw wedi'i gofrestru geisio ei gofrestru cyn y bleidlais. Yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ac yn Nhŷ'r Oireachtas, dylai Aelodau geisio sicrhau cyn cynnal pleidlais fod unrhyw fuddiant perthnasol wedi'i gofrestru, neu, os nad yw wedi'i gofrestru, dylent gofrestru'r buddiant yn syth ar ôl y bleidlais.

**35.** Ystyriodd y Pwyllgor a ddylid rhoi'r gofynion ynghylch datgan buddiannau perthnasol cyn pleidleisio mewn Rheolau Sefydlog, ond roedd yn pryderu y byddai angen, o wneud hynny, nodi'r eithriadau a nodwyd yn y canllawiau blaenorol ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd presennol hefyd yn y Rheolau Sefydlog. Gallai hyn olygu cynnwys lefel anarferol o fanylder yn y Rheolau Sefydlog, gyda chanlyniadau i allu'r Pwyllgor a'r Comisiynydd i addasu manylion y rheolau yn y dyfodol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**36.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid dehongli'r gofyniad i ddatgan buddiant perthnasol cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion i gynnwys pleidleisio, yn

gyffredin â defnyddiau eraill o'r term trafodion ar draws Rheolau Sefydlog. Caiff hyn ei egluro yn y Canllawiau diwygiedig.

**37.** Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gydymffurfio â Rheolau Sefydlog perthnasol, mae Cod Ymddygiad yr Aelodau hefyd yn rhoi statws i'r Canllawiau, sy'n golygu y gall y Comisiynydd roi sylw iddynt wrth ymchwilio i unrhyw gŵyn:

> *"5. Gall Comisiwn y Senedd gyhoeddi canllawiau o bryd i'w gilydd i gynorthwyo Aelodau a'u staff i gydymffurfio â'r Cod, a gall Comisiynydd Safonau'r Senedd roi sylw i ganllawiau o'r fath wrth ystyried unrhyw gŵyn o fethiant i gydymffurfio â darpariaethau'r Cod."*

**38.** Felly, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnig diwygio'r Canllawiau i integreiddio cyngor y Comisiynydd ar ddatgan buddiannau perthnasol cyn pleidleisio fel rhan o'r adolygiad o'r canllawiau cyn y Seithfed Senedd.

## Datgan buddiannau perthnasol wrth gyflwyno busnes

**39.** Ar hyn o bryd, mae gan yr Aelodau y dewis o ddatgan buddiant wrth gyflwyno busnes drwy flwch ticio yn y porthol cyflwyno ar-lein, neu ar y ffurflen cyflwyno gwelliannau ar gyfer Biliau. Os yw'r blwch wedi'i dicio, mae [R] yn ymddangos wrth ymyl y busnes a gyflwynwyd ar ôl ei gyhoeddi i nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant, ond nid oes unrhyw fanylion ynghylch natur y buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael eu cyhoeddi.

**40.** Gwelodd y Pwyllgor fod y broses hon yn ddewisol yn hytrach nag yn ofyniad ac nid yw'n cael ei nodi o gwbl yn y Rheolau Sefydlog nac yn y Canllawiau. O ganlyniad, mae ei ddefnydd gan Aelodau yn anghyson, ac nid oes unrhyw ganlyniadau am fethu â datgan buddiant ar adeg cyflwyno.

**41.** Nododd y Pwyllgor fod datgan buddiannau ar yr adeg gyflwyno yn ofyniad yn Nhŷ'r Arglwyddi, Tŷ'r Cyffredin, Cynulliad Gogledd Iwerddon, a Senedd yr Alban.

**42.** Cytunodd y Pwyllgor y dylai datgan buddiannau perthnasol ar yr adeg gyflwyno ddod yn ofyniad yn y Rheolau Sefydlog ac y dylid ymgynghori ar y cynnig drafft, er mwyn cysoni'r Senedd â deddfwrfeydd eraill.

**43.** Wrth ymateb i ail ymgynghoriad y Pwyllgor, croesawodd y Comisiynydd y cynigion hyn. Croesawodd grŵp Plaid Cymru y cynigion hyn hefyd, gan nodi y byddai'n darparu mwy o dryloywder pe bai'r manylion yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r datganiad o fuddiant a nodwyd.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Busnes y dylid ei gwneud yn ofyniad yn y Rheolau Sefydlog i ddatgan y buddiannau perthnasol ar adeg cyflwyno busnes.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn ymchwilio i ymarferoldeb sicrhau bod gwybodaeth am natur y buddiant ar gael drwy'r Cofnod, yn hytrach na defnyddio'r symbol [R] presennol yn unig, er mwyn gwella tryloywder.

# 4. Datgan buddiannau y tu allan i drafodion y Senedd

**44.** Wrth ymateb i ymgynghoriad cychwynnol y Pwyllgor, awgrymodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y gellid gwneud datganiad cyn unrhyw sylwadau llafar neu ysgrifenedig ynghylch mater lle mae gan Aelod fuddiant personol. Fel y mae, dim ond wrth gymryd rhan yn nhrafodion y Senedd y mae'n ofynnol i'r Aelodau ddatgan buddiannau cofrestradwy a pherthnasol.

## Yr arfer mewn mannau eraill

**45.** Yn Nhŷ'r Cyffredin, mae'r Cod Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgan buddiannau perthnasol yn y trafodion, a hefyd:

a. Mewn unrhyw gyfathrebu, ffurfiol neu anffurfiol, â'r rhai sy'n gyfrifol am faterion polisi cyhoeddus, gwariant cyhoeddus, neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu â Gweinidogion, naill ai ar eu pen eu hunain neu fel rhan o ddirprwyaeth: ag Aelodau eraill; â swyddogion cyhoeddus (gan gynnwys staff adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth a deiliaid swyddi cyhoeddus). Os yw'r cyfathrebu hwnnw'n ysgrifenedig, yna dylai'r datganiad fod yn ysgrifenedig hefyd; fel arall dylai fod ar lafar; ac

b. Wrth archebu cyfleusterau ar yr ystad seneddol.

**46.** Yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae'n ofynnol i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol wrth gyfathrebu â gweinidogion neu weision cyhoeddus am faterion sy'n gysylltiedig â pholisi cyhoeddus a thrafodion seneddol. Mae "gweision cyhoeddus" yn cynnwys gweision y Goron, gweision sifil, gweithwyr asiantaethau'r llywodraeth neu gyrff cyhoeddus anadrannol, ac Aelodau, swyddogion a gweithwyr awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethol eraill.

**47.** Yn Senedd yr Alban, fel yn y Senedd, mae ond yn ofynnol i Aelodau ddatgan buddiant cyn cymryd rhan mewn trafodion y senedd. Yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, mae'r gofyniad yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan buddiant perthnasol ar yr adeg briodol yn cwmpasu bron pob agwedd ar ddyletswyddau Aelod gan ymestyn i ohebiaeth a chyfarfodydd â Gweinidogion, gweision sifil a swyddogion cyhoeddus.

**48.** Ystyriodd y Pwyllgor a ddylai fod yn ofynnol i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol neu gofrestradwy y tu allan i drafodion y Senedd, megis wrth gyfathrebu â Gweinidogion, a nododd yr anhawster o gynnwys gofyniad o'r fath yn Rheolau Sefydlog y Senedd o ystyried bod eu cwmpas yn gyffredinol wedi'i gyfyngu i fusnes a thrafodion y Senedd.

**Casgliad 1.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn bwriadu adolygu'r Canllawiau cyn y Seithfed Senedd, a bydd yn ystyried a ellir eu cryfhau o ran egluro pa fath o wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn datganiadau.

**Casgliad 2.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai Canllawiau'r Senedd ar ddatgan buddiannau yn elwa o gynnwys cyngor tebyg i gyngor Tŷ'r Cyffredin ynghylch pryd nad oes angen datgan buddiant perthnasol, ac mae'n bwriadu cynnig bod testun penodol yn cael ei gynnwys yn y canllawiau pan gânt eu hadolygu cyn y Seithfed Senedd.

**Casgliad 3.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn bwriadu cynnig bod y Canllawiau'n cael eu diwygio i integreiddio cyngor y Comisiynydd Safonau o 2015 ar ddatgan buddiannau perthnasol cyn pleidleisio, fel rhan o'r adolygiad o'r canllawiau cyn y Seithfed Senedd.

**Casgliad 4.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n fwyaf priodol cynnwys y gofyniad i ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol neu gofrestradwy y tu allan i drafodion y Senedd yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, fel sy'n wir mewn mannau eraill, a chytunodd i drafod y mater mewn rhagor o fanylder fel rhan o'i adolygiad o'r Cod hwnnw.

# Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Mae’r holl ymatebion i’r ymgynghoriad, ynghyd â gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **D01** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| **D02** | Comisiynydd Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus yn yr Alban |
| **D03** | Grŵp Llafur y Senedd |
| **D04** | Transparency International UK |
| **D05** | Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn Senedd Cymru |
| **D06** | Comisiynydd Safonau’r Senedd |